Y mae tymor y Pasg yn prysur dirwyn i ben a chyda hyn daw diwedd ar weithgareddau Adran yr Urdd, am gyfnod byr beth bynnag. Yn ystod yr wythnosau diwethaf cawsom gwmni Miss Eleri Davies a fu'n ein hyfforddi mewn dawnsio gwerin a daeth Mr Dilwyn Jones i'n diddori gyda'i ganu swynol i gyfeiliant y gitâr. Yn ein cyfarfod olaf cawsom gwmni Mr Charles Williams o Aberystwyth. Nos Fawrth cyn y gwyliau cafwyd noson o Gawl a Chân. Bu'r gwragedd yn hynod o garedig yn paratoi'r cawl a hyfryd oedd cael cwmni'r rhieni y tro yma. Yn wir y mae diolch yn ddyledus i'r rhieni am eu cefnogaeth yn ystod y gaeaf, nid yn unig am ein cynorthwyo gyda'r Urdd ond am fod mor barod a charedig i'n helpu gyda'r chwaraeon ac mewn llawer modd arall. Cafwyd llawer iawn o hwyl yn ddiweddar mewn cyfarfod a drefnwyd gan y Pwyllgor Rhieni Athrawon. Hyfryd oedd gweld y mamau a'r tadau yn uno gyda'r plant yn y digrifwch.

Ymwelodd y plant â'r Pasiant Bro a drefnwyd gan yr adran leol o Ferched y Wawr. Cafwyd llawer iawn o fudd o'r ymweliad yma a llongyfarchwn y rhai a fu'n trefnu'r pasiant ar eu gwaith rhagorol.

Dathlwyd Gŵyl Ddewi'n yr Ysgol gyda gwasanaeth arbennig yn y bore ac yn ystod y dydd cafwyd gwahanol gystadleuthau. Yr oedd nifer o'r merched wedi dod yn eu gwisgoedd traddodiadol a bu hyn o help o roddi naws arbennig i'r Wyl.

Yn ystod y mis diwethaf cafodd y tim peldroed gryn hwyl ar y maes chwarae. Canmolwn hwy ar eu llwyddiant ac am eu chwarae glân bob amser. Yn ystod y gwyliau bydd Graham Thomas a John Allsopp yn chwarae yn Ffrainc a dymunwn iddynt bob llwyddiant. Iddynt hwy a holl drigolion y fro dymunwn Basg dedwydd iawn.

Mawrth 1978